Cardiau Nadolig

Cysyniadau: **Llawenydd, mwynhad, meddwl am eraill.**

Amcan: **Gwerthfawrogi llawenydd y Nadolig a chofio am eraill.**

Cyfarpar: **Tri cherdyn Nadolig gwahanol. Un moel, dim ond ysgrifen arno; un lliwgar, ac un yn chwarae darn o gerddoriaeth wrth ei agor.**

Cyflwyniad:

● Mae cyfnod y Nadolig yn gyfnod diddorol a chynhyrfus. Dyma'r adeg y bydd y postmon yn galw efo cardiau a pharseli. Dyma'r adeg i ysgrifennu cardiau at eich teulu a'ch ffrindiau. (Mewn sawl ysgol mae blwch postio i'r plant gael anfon cardiau Nadolig i'w ffrindiau yn yr ysgol. Bydd plant y gwahanol ddosbarthiadau yn cael cyfle i gasglu, dosbarthu a rhannu'r cardiau o ddosbarth i ddosbarth. Efallai y bydd cardiau i'r athrawon, staff y gegin a'r gofalwyr hefyd.)

● Arddangos y tri cherdyn. Mae'r cyntaf yn foel heb ddim ond ysgrifen 'Nadolig Llawen' arno ond mae'r ail yn fwy lliwgar. Mae ysgrifen ar hwn hefyd ond mae llun Mair a Joseff a'r baban Iesu arno neu efallai robin goch neu olygfa aeafol. Trafod y gwahaniaethau gyda'r plant:

● Pa un sy'n apelio atyn nhw? Pam?

● A ddylid cael llun o wir ystyr y Nadolig ar bob cerdyn Nadolig?

● Beth am lun y robin goch ar gardiau Nadolig? Yn yr hen ddyddiau yr enw a roddwyd ar y postmyn oedd 'robin' am eu bod yn gwisgo gwisg oedd yn goch llachar fel bron y robin. Mae'r robin hefyd yn aderyn a welir yn bur aml yn chwilio am fwyd yn ystod y tymor oer, a hefyd

mae'n un o'r adar a glywir yn canu yn ystod y gaeaf. Yn ôl un chwedl cafodd y robin ei fron goch wrth iddo fegino fflamau'r tân yn y stabl i gynhesu'r baban Iesu a llosgi'r plu ar ei fron yn y broses.

● Mae hanes y cardiau Nadolig cyntaf yn mynd yn ôl i Nadolig 1843 pan argraffwyd ychydig dros ddwy fil gan Rowland Hill a'u gwerthu am swllt (5c) yr un. Byddai hynny o gwmpas £2 yr un heddiw! Erbyn heddiw mae pobl ym Mhrydain yn anfon biliwn o gardiau Nadolig, sef mwy na dwsin ar gyfer pob dyn, dynes a phlentyn ym Mhrydain, sy'n werth £200 miliwn.

● Mae'r trydydd cerdyn yn wahanol. Agorwch hwn yn araf ac fel y byddwch yn ei agor bydd miwsig Nadoligaidd i'w glywed. (Bydd rhain i'w cael yn eich siopau lleol neu ar y we). Dyma gerdyn sy'n debyg ar yr olwg gyntaf i'r ddau arall ond mae'n gwbl wahanol.

Trafodaeth bellach:

● Mae pobl yn debyg i'r cerdyn hwn. Pan ydyn ni'n eu cyfarfod am y tro cyntaf maen nhw'n edrych yn ddigon cyffredin, yn union fel pobl eraill. Ond wrth i ni ddod i'w hadnabod, rydym yn darganfod bod ganddyn nhw nodweddion sy'n cyfoethogi bywydau pobl eraill. Mae rhai pobl yn byw er mwyn pobl eraill.

● Glywsoch chi erioed am y Samariaid? Pobl ydi'r rhain sy'n barod i wrando a helpu pobl eraill. Er mai adeg hapus ydi'r Nadolig bydd llawer iawn o bobl yn teimlo'n unig a thrist. Dyma'r adeg maen nhw angen help.

Stori:

Chad Varah oedd enw'r dyn a gychwynnodd fudiad y Samariaid a hynny am fod merch ifanc ddeunaw oed wedi marw. Roedd hi wedi lladd ei hun. Roedd llawer o bobl yn dweud y byddai wedi byw petai wedi cael rhywun i wrando arni. Penderfynodd Chad Varah, oedd yn offeiriad, y byddai drws ei eglwys yn Llundain yn agored yn ystod y dydd a'r nos i wrando ar bobl a cheisio'u helpu.

Mae tad Arwen yn un o'r Samariaid. Dyma oedd ganddo i'w ddweud. 'Mi fydda i'n treulio dwy awr ar y tro bob wythnos yn eistedd yn swyddfa'r Samariaid yn disgwyl i'r ffôn ganu. Un wythnos byddaf yn y swyddfa am ddwy awr yn ystod y dydd a thro arall am ddwy awr yn ystod y nos. Yn ystod y nos y bydda i'n cael y rhan fwyaf o alwadau. Mae pobl o bob oed yn galw ond mae'r mwyafrif yn bobl ifanc. Mae rhai yn teimlo'n unig. Mae rhai wedi ffraeo efo'u teulu a'u ffrindiau. Fy ngwaith i ydi gwrando arnyn nhw a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am wahanol leoedd i gael help. Yn ystod tymor y Nadolig mi fydd y ffôn yn y swyddfa yn brysur iawn.'

- Dyn cyffredin ydi tad Arwen, ffermwr wrth ei waith, ond y mae'n gwneud gwaith anghyffredin.
- Mae tymor y Nadolig yn ein hatgoffa bod Iesu wedi'i eni fel pob babi arall. Wedi cael ei ddwyn i fyny gan Mair a Joseff. Wedi gweithio fel saer yn y gweithdy yn Nasareth. Ond fel yr oedd yn tyfu roedd o'n dweud a gwneud pethau gwahanol a rhyfeddol a hynny er lles pawb. Mae'r Nadolig yn ein hatgoffa bod babi bach cyffredin wedi tyfu i fyny i wneud pethau anghyffredin. Mae Iesu wedi dangos i ni sut i fyw bywyd ar ei orau.

Emyn/Carol: Dewch, ymunwch yn y dathlu: Canu Clod 106

Dyfyniad o'r Beibl:
"Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd ..." Luc 2:11 BCND

Munud i feddwl:
Mae Nadolig yn golygu llawer mwy nag agor anrhegion, mae'n gyfle hefyd i agor ein calonnau i helpu eraill.

Myfyrdod/Gweddi:
Wrth i ni fwynhau'r Nadolig gawn ni gofio am y rhai fydd yn ei chael hi'n anodd iawn i fwynhau?
Cofiwn am y plant fydd heb ddim. Ie, dim.